***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1092 (Cy. 187) (C. 68)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Arbed) 2023

*Gwnaed - - - - 12 Hydref 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 56(4) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Arbed) 2023.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

## Rhan 1

## Y darpariaethau sy'n dod i rym

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 17 Hydref 2023

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 17 Hydref 2023—

(a) adrannau 21 i 23 (Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol);

(b) adrannau 25-33 (Casglu a rhannu data);

(c) adran 34 (Safonau marchnata);

(d) adran 35 (Dosbarthiad carcasau);

(e) adran 55 (Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau etc.);

(f) Atodlen 1 (Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata);

(g) Atodlen 2 (Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol etc. sy'n ymwneud â Rhannau 1 i 3) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(h) Atodlen 3 (Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO).

(**1**) 2023 dsc 4.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2024**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2024—

(a) adrannau 36-44 (Coedwigaeth) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym.

## Rhan 2

### Darpariaethau arbed

**4.** Er bod paragraff 1(9) o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn diddymu Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, mae'r rheoliadau a'r datganiadau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym ac yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan yr adran o'r Ddeddf a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

12 Hydref 2023

## YR ATODLEN

Erthygl 4

Parhad mewn grym reoliadau neu ddatganiadau a wnaed o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a darpariaethau cyfatebol yn y Ddeddf.

| *Colofn 1*<br>*Rheoliadau/Datganiadau a wnaed o dan Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020* | *Colofn 2*<br>*Yr adran berthnasol y mae darpariaethau i gael effaith odani fel pe baent wedi eu gwneud o dan y Ddeddf* |
|---|---|
| Paragraff 4(1) | Adran 17 |
| Paragraff 5(1) | Adran 18 |
| Paragraff 6(1) | Adran 19 |
| Paragraff 7(1) | Adran 21 |
| Paragraff 16(1) | Adran 34 |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**2**) ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 17 Hydref 2023—

(a) adrannau 21 i 23 (Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol);

(b) adrannau 25-33 (Casglu a rhannu data);

(c) adran 34 (Safonau marchnata);

(d) adran 35 (Dosbarthiad carcasau);

(e) adran 55 (Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau etc.);

(f) Atodlen 1 (Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata);

(g) Atodlen 2 (Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol etc. sy'n ymwneud â Rhannau 1 i 3) i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(h) Atodlen 3 (Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2024—

(a) adrannau 36-44 (Coedwigaeth) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym.

(**2**) 2023 dsc 4.

Mae erthygl 4 yn darparu darpariaethau arbed mewn perthynas â rheoliadau neu ddatganiadau a wnaed o dan y darpariaethau presennol yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 a ddiddymir gan y Ddeddf.